PARTNERIAETH

Cyd-Bwyllgor Partneriaeth

Dydd Gwener, 3 Chwefror 2023

Siambr – Neuadd y Sir, Caerfyrddin. SA31 1JP ac a bell
10:02 – 10:52yb

CADEIRYDD: Y Cynghorydd Darren Price, Arweinydd Cyngor Sir Caerfyrddin (Aelod â phleidlais)

Aelodau â Phleidlais	
Y Cynghorydd Rob Smith	Yr Aelod Cabinet dros Addysg, Sgiliau a Dysgu Gydol Oes, Cyngor Abertawe)
Y Cynghorydd Guy Woodham	Yr Aelod Cabinet dros Addysg a Dysgu Gydol Oes, Cyngor Sir Penfro)
Y Prif Weithredwyr	
Mr Martin Nicholls	Cyngor Abertawe (Prif Weithredwr Arweiniol)
Cyfarwyddwyr Addysg	
Mr Gareth Morgans	Cyngor Sir Caerfyrddin - Dirprwy Gyfarwyddwr Arweiniol
Mr Steven Richards-Downes	Cyngor Sir Penfro - Dirprwy Gyfarwyddwr Arweiniol
Ms. Helen Morgan-Rees	Cyngor Dinas a Sir Abertawe (Cyfarwyddwr Arweiniol)
Mr Jonathan Haswell	Swyddog A151 Partneriaeth (Cyfarwyddwr Adnoddau, Cyngor Sir Penfro)
Mr Ian Altman	Swyddog Arweiniol Partneriaeth
Ms. Linda Rees Jones	Swyddog Monitro (Cyngor Sir Caerfyrddin)
Mrs Sharen Davies	Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
Mr Matthew Holder	Pennaeth Archwilio Mewnol Partneriaeth (Cyngor Sir Penfro)
Mr. Martin Davies	Cyngor Sir Caerfyrddin (Gwasanaethau Democrataidd)
Mrs. Kelly Evans	Cyngor Sir Caerfyrddin (Gwasanaethau Democrataidd, cymryd nodiadau)
Mrs. Siwan Rees	Cyngor Sir Caerfyrddin (Cyfieithu)
Mr. Martin Runeckles	Cyngor Sir Caerfyrddin (Gwe-ddarlledu)
Ms. Ruth Lee	Rheolwr Busnes Partneriaeth
Sylwedyddion	
Y Cynghorydd Lyndon Jones	Cadeirydd Grŵp Craffu'r Cynghorwyr
Matthew Jones	ESTYN

1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan Wendy Walters (Prif Weithredwr, Cyngor Sir Caerfyrddin), William Bramble (Prif Weithredwr, Cyngor Sir Penfro), Cynghorydd David Simpson (Cyngor Sir Penfro), Cynghorydd Rob Stewart (Arweinydd, Cyngor Dinas a Sir Abertawe), Mark Campion (ESTYN) a Karen Newby Jones (ESTYN).

2. DATGANIADAU O FUDDIANT

ENW	EITEM	BUDDIANT
Helen Morgan Rees	5	Enwebwyd ar gyfer Cyfarwyddwr Arweiniol
Martin Nicholls	5	Enwebwyd ar gyfer Prif Weithredwr Arweiniol

3. COFNODION CYFARFOD PARTNERIAETH AR 7 HYDREF, 2022

PENDERFYNWYD llofnodi cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 7 Hydref 2022 yn gofnod cywir.

4. MATERION YN CODI O'R COFNODION (OS OES RHAI)

17 Hydref, 2022 - Cofnod Eitem 6

Mewn ymateb i ymholiad ynghylch swyddfeydd, cafodd aelodau wybod bod gostyngiad o 50% yn y defnydd o swyddfeydd a byddai un cyfeiriad busnes ar gyfer Partneriaeth yn cael ei ystyried.

5. PRIF WEITHREDWR ARWEINIOL PARTNERIAETH A CHYFARWYDDWR ARWEINIOL PARTNERIAETH

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL bod:

5.1 Martin Nicholls yn cael ei benodi'n Brif Weithredwr Arweiniol
5.2 Helen Morgan Rees yn cael ei phenodi'n Gyfarwyddwr Arweiniol

6. LLYTHYR GAN GADEIRYDD GRWP CYNGHORWYR CRAFFU PARTNERIAETH

Derbyniodd y Cydbwyllgor lythyr gan Gadeirydd y Grŵp Cynghorwyr Craffu Partneriaeth yn adlewyrchu ar y sylwadau yn dilyn cyfarfod diwethaf y Grŵp ar y 24 Hydref, 2022.

Bydd cyfarfodydd y Grŵp yn y dyfodol yn cyd-fynd â chyfarfodydd y Cyd-bwyllgor.

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL dderbyn y llythyr.

7. ADRODDIAD ARIANNOL PARTNERIAETH 2022-23 (RHAGFYR 2022)

Cafodd y Cydbwyllgor ddiweddariad ar sefyllfa ariannol Partneriaeth ar ddiwedd Rhagfyr 2022.

Nodwyd bod yr adroddiad yn rhoi gwybodaeth fanwl benodol mewn perthynas â'r canlynol:

- Cytundebau Lefel Gwasanaeth
- Cyfraniadau Awdurdod Lleol
- Monitro'r Gyllideb - Rhagfyr 2022
- Incwm Grant ar gyfer 2022-23
- Risgiau a Chyfleoedd

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL:-

7.1 bod yr adroddiad ariannol fel yr oedd ym mis Rhagfyr 2022 a'r alldro a ragwelir ar gyfer 2022-23 yn cael eu nodi;

7.2 bod y gyllideb ddiwygiedig ar gyfer 2022-23 a'r incwm grant a'r dyraniad ar gyfer 2022-23 yn cael eu cymeradwyo

8. RHAGLEN WAITH ARCHWILIO MEWNOL 2022-23

Cafodd y Cyd-bwyllgor Raglen Waith Archwilio Mewnol 2022-23 Partneriaeth i'w hystyried.

Mae'r Rhaglen Waith yn nodi'r amcanion allweddol, cwmpas, dull gweithredu a'r trefniadau adrodd. Datblygwyd y Rhaglen Waith mewn ymgynghoriad â'r Cyfarwyddwr Addysg Arweiniol, y Swyddog Adran 151, y Swyddog Monitro a Swyddog Arweiniol Partneriaeth.

Bydd y gwaith maes o ran Archwilio Mewnol yn cael ei gynnal rhwng mis Mawrth a mis Mai 2023. Ar ddiwedd y gwaith maes bydd adroddiad Archwilio Mewnol yn cael ei gyhoeddi i'r priod Swyddogion i'w hystyried. Ar ôl darparu adborth i'r Archwiliad Mewnol, bydd yr adroddiad yn cael ei gyflwyno i'r Cyd-bwyllgor yn ystod tymor yr Haf.

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL dderbyn y wybodaeth ddiweddaraf am Raglen Waith Archwilio Mewnol 2022/23.

9. DIWEDDARIAD PARTNERIAETH

Cafodd y Cyd-bwyllgor gyflwyniad gyda'r wybodaeth ddiweddaraf am ddarpariaeth bresennol Partneriaeth.

Yn ystod y chwe mis cyntaf, mae swyddogion Partneriaeth wedi derbyn adborth gonest gan swyddogion yr awdurdodau lleol er mwyn mireinio'r ddarpariaeth i fodloni anghenion lleol. O ganlyniad, mae ymgysylltu, ymddiriedaeth ac ansawdd wedi gwella. Disgwylir y bydd adborth agored ac uniongyrchol rhwng Partneriaeth a swyddogion yr awdurdodau lleol yn fuddiol i bawb i lunio dysgu proffesiynol a datblygu arweinyddiaeth.

Mewn ymateb i ymholiad a godwyd, dywedodd Swyddog Arweiniol Partneriaeth wrth y Cyd-bwyllgor y bydd data yn cael ei ddarparu yn y cyfarfod nesaf i gynllunio ar gyfer y dyfodol.

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL nodi'r diweddariad.

10. COFRESTR RISGIAU

Derbyniodd y Cyd-bwyllgor broffil risg cyffredinol y rhanbarth. Nodwyd bod y risgiau canlynol o debygolrwydd canolig ac effaith uchel:

- Methu â chefnogi Awdurdodau Lleol mewn meysydd perthnasol yn ystod eu hymgysylltiad ag Estyn
- Prydlondeb Llywodraeth Cymru yn darparu cyllid
- Diffyg Eglurder o ran swyddogaethau Partneriaeth

Ychwanegwyd sylw arall at Risg Canolog 1 i adlewyrchu'r risg sy'n gysylltiedig â'r Cwricwlwm i Gymru.

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL:-
10.1. Nodi'r proffil risg
10.2. Derbyn yr adroddiad risg

11. UNRHYW FATER ARALL Y GALL Y CADEIRYDD OHERWYDD AMGYCHIADAU ARBENNIG, BENDERFYNU EI YSTERIED YN FATER BRYS YN UNOL AG ADRAN 100B(4)(B) O DDEDDF LLYWODRAETH LEOL 1972

Nid oedd dim materion brys i'w trafod.

_____ _____

CHAIR **DATE**